## GORCHYMYN CREU LLWYBR CYHOEDDUS

## DEDDF PRIFFYRDD 1980

## CYNGOR BRO MORGANNWG

## (LLWYBR TROED CYHOEDDUS Rhif 73 GWENFÔ)

## GORCHYMYN CREU LLWYBR CYHOEDDUS 2025

Gwneir y gorchymyn hwn gan Gyngor Bro Morgannwg ("yr Awdurdod") o dan Adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") oherwydd ei bod ymddangos i'r Awdurdod, o ystyried y materion a nodwyd yn Adran 26(1), fod angen llwybr troed cyhoeddus dros y tir y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud ag ef, ac y byddai creu'r llwybrau yn fuddiol.

DRWY'R GORCHYMYN HWN

1. Bydd yr hawl dramwy gyhoeddus dros y tir a leolir yn Fferm Whitehall, Gwenfô, a ddangosir gan linell doredig drwchus ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn Rhan 1 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yn cael ei chreu ar ôl 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

2. Er y Gorchymyn hwn, bydd gan unrhyw ymgymerwr statudol sydd ag offer yn y tir, ar y tir, dros y tir, ar hyd y tir neu ar draws y tir y cyfeirir ato ym mharagraff 1 at ddiben cyflawni eu hymgymeriad yr un hawliau o ran yr offer ag yr oedd ganddynt yn union cyn dyddiad creu'r llwybr troed.

3. Bydd yr hawliau a roddir i'r cyhoedd dan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r amodau a nodir yn Rhan 2 yr Atodlen.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** 19261

**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**yma**

**ar** 14eg o Hydref **2025**

**ym mhresenoldeb:**

THE VALE OF GLAMORGAN COUNCIL THE SEAL OF

**Victoria Davidson**
**Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Justine Cass**
**Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol**

ATODLEN

Rhan 1

DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR I GAEL EI GREU


| Rhan o'r llwybr neu'r ffordd fel y'i dynodir | Lleoliad | Hyd | Lled |
|---|---|---|---|
| **A – B – C – D Llwybr Troed Rhif 73 Gwenfô** | Gan ddechrau ym mhwynt A (311462 173160) ac yn mynd tua'r gogledd-ddwyrain i bwynt B (NGR 311468 173166) mae'r llwybr yn parhau tua'r gogledd-ddwyrain yn gyfochrog ac i ochr ddwyreiniol ffin y cae i bwynt C (NGR 311555 173263), i ddod allan yn y lôn sy'n arwain at White Hall Farm i orffen ym mhwynt D (NGR 311558 173268). | 151 metr | 2 fetr |

Rhan 2

CYFYNGIADAU AC AMODAU

| | |
|---|---|
| **A – B – C – D Llwybr Troed Rhif 73 Gwenfô** | Pwynt B (NGR 311468 173166) porth BS570<br>Pwynt C (NGR 311555 173263) porth BS5709 |

Deddf Pryffyrdd 1980, Adran 26 - Creu Llwybr Troed Cyhoeddus
Highways Act 1980 Section 26 - Creation of Public Footpath




**L'w creu - Llwybr Troed**

**To be created - Footpath**

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
**Public Rights of Way**

Llwybr Troed
Footpath

Llwybr Ceffylau
Bridleway

Cilffordd Gyfyngedig
Restricted Byway

AO / OS: 311737 173329

Garddfa / Scale: 1:2500

Dyddiad / Date: 13.09.2023

© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100023424